# SL(6)647 – Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ("y Gorchymyn") yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu tâl ac amodau cyflogaeth athrawon ysgol yng Nghymru, a hynny drwy gyfeirio at y darpariaethau a nodir yn adran 2 o'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2025 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol ("y Ddogfen"). Mae'r Ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar ôl ystyried yr argymhelliad yn chweched adroddiad IWPRB, bydd codiad o 4% yn cael ei gymhwyso ar gyfer pob lwfans a phwynt graddfa.

Mae'r Gorchymyn hwn yn cyflwyno ystodau cyflog a lwfansau newydd yn y fframwaith cyflog cenedlaethol ar gyfer athrawon ysgol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn unig. Mae gan ysgolion nas cynhelir yng Nghymru ryddid a hyblygrwydd i fabwysiadu ystodau cyflog a lwfansau ar gyfer eu hathrawon sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau lleol orau.

Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 7 Hydref 2025. Fodd bynnag, bydd y darpariaethau ar gyflog ac amodau athrawon o dan adran 2 o'r Ddogfen yn dod i rym yn ôl-weithredol o 1 Medi 2025 (caniateir yr effaith ôl-weithredol hon o dan Ddeddf Addysg 2002).

Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024.[O.S. 2024/1119 (Cy. 186)]

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol ("Asesiad Effaith") Llywodraeth Cymru yn nodi'r gwahanol opsiynau a ganfu wrth ystyried tâl ac amodau cyflogaeth athrawon ysgol yng Nghymru. Mae'r opsiynau'n cynnwys gweithredu newidiadau fel yr argymhellir gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ("IWPRB"), gan gynnwys dyfarniad cyflog o 4.8% (Opsiwn 2), a gweithredu dyfarniad cyflog o 4% (Opsiwn 3).

Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2 yn yr Asesiad Effaith:

> *Mae cynnydd o 4.8% ar draws pob lwfans a phwynt graddfa athrawon yn cyfateb i gynnydd amcangyfrifedig i'r bil cyflogau cyffredinol o £52.818m ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26 (mis Medi 2025 hyd fis Mawrth 2026) a £90.546m ar gyfer y flwyddyn academaidd lawn o'r flwyddyn ariannol 2026-27.*
>
> *Mae arian i dalu cyflogau athrawon yn rhan o'r arian craidd a ddarperir gan awdurdodau lleol fel y'i cefnogir gan y Setliad Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, pan fo'r dyfarniad cyflog yn uwch nag a ragwelwyd mewn cytundebau cyllidebu, mae Llywodraeth Cymru yn flaenorol wedi darparu cyllid grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn i dalu costau setliadau cyflog uwch.*
>
> *Fodd bynnag, ar ôl ystyried y cyd-destun ariannol yn ofalus, nid yw'n fforddiadwy o fewn cyllidebau Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid llawn ar gyfer y cyllid grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Yn y cyd-destun hwn, pe bai Llywodraeth Cymru yn cytuno ar 4.8%, byddai elfen o hyn heb ei hariannu ac yn creu pwysau ychwanegol ar gyllidebau awdurdodau lleol ac ysgolion. Gallai hyn arwain at ddiswyddiadau, sydd eisoes yn bryder i undebau addysgu ac ysgolion.*

Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 3 yn yr Asesiad Effaith hefyd:

> *Mae cynnydd o 4% ar draws pob lwfans a phwynt graddfa athrawon yn cyfateb i gynnydd amcangyfrifedig o £10.4m i'r bil cyflog cyffredinol ar gyfer 7 mis o 2025-26 ac £17.8m ar gyfer y flwyddyn academaidd lawn (effaith blwyddyn ariannol 2026-27).*
>
> *Fodd bynnag, er mwyn lliniaru effaith y costau hyn ar gyllidebau ysgolion ac awdurdodau lleol, sydd eisoes wedi'u pennu ar gyfer 2025-26, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol, i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion â'r codiad cyflog.*

Mae Llywodraeth Cymru yn datgan bod Opsiwn 3 wedi'i ddewis o ystyried y manteision a'r costau a amlinellir yn yr Asesiad Effaith.

Nodwn sylwadau Llywodraeth Cymru yn yr Asesiad Effaith mewn perthynas ag ymgynghori â rhanddeiliaid:

*Ar y cyfan, nid oedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn gefnogol yn gyffredinol i'r dyfarniad o 4% oherwydd ei fod yn is nag argymhelliad IWPRB. Fodd bynnag, pwysleisiodd pob ymgynghorai fod angen i'r dyfarniad gael ei ariannu'n llawn.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 29 Medi 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.